Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Mae'r Offeryn Statudol Cymreig hwn wedi ei wneud o ganlyniad i ddiffygion yn O.S.C. 2026/2 ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol Cymreig hwnnw*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 38

# Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2026* |

*This Welsh Statutory Instrument has been made in consequence of defects in W.S.I. 2026/2 and is being issued free of charge to all known recipients of that Welsh Statutory Instrument*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 38

# The Regulated Services (Registration) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *11 February 2026* |
| *Coming into force* | *1 April 2026* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Mae'r Offeryn Statudol Cymreig hwn wedi ei wneud o ganlyniad i ddiffygion yn O.S.C. 2026/2 ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol Cymreig hwnnw*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U

# 2026 Rhif 38

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 ("y prif Reoliadau") yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys ceisiadau i gofrestru a cheisiadau i amrywio cofrestriad o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i roi effaith i newidiadau a gyflwynir gan adran 6A(1) o Ddeddf 2016, sy'n cyfyngu ar ddarparu gwasanaethau plant penodol i awdurdodau lleol ac endidau nid-er-elw. Mae'r gwasanaethau hyn, y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn fel "gwasanaethau plant o dan gyfyngiad", yn cynnwys gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu.

Mae rheoliad 4 yn mewnosod diffiniadau yn rheoliad 2 o'r prif Reoliadau ar gyfer "endid nid-er-elw", "gwasanaeth plant o dan gyfyngiad" a mathau penodol o sefydliadau elusennol a sefydliadau buddiant cymunedol. Mae rheoliad 4 hefyd yn diwygio'r diffiniad o "ymgeisydd" i gynnwys personau sy'n gwneud cais o dan adran 6C o'r Ddeddf a pharagraff (4) o Atodlen 1A iddi, i'w cofrestriad fod yn ddarostyngedig i'r gofyniad yn adran 6A(1) o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 5 yn mewnosod rheoliad newydd 3B yn y prif Reoliadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr, sy'n ceisio cofrestru i ddarparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, ddarparu gwybodaeth ychwanegol a bennir ym mharagraff newydd 7A o Atodlen 1. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i hepgor gofynion penodol ar gyfer ceisiadau os

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

yw'r ymgeisydd yn endid nid-er-elw sy'n cymryd drosodd wasanaeth plant o dan gyfyngiad yn yr un man o dan gytundeb â'r darparwr presennol, ac os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried, gan roi sylw i wybodaeth a gedwir am y darparwr presennol, fod hepgoriad yn briodol. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i fabwysiadu dull symlach ar gyfer cofrestru pan fo gwasanaeth plant presennol sy'n wasanaeth plant o dan gyfyngiad, yn cael ei drosglwyddo i endid nid-er-elw sy'n bodloni gofynion adran 6A(1) o Ddeddf 2016 a phan fo Gweinidogion Cymru eisoes yn cadw gwybodaeth am y gwasanaeth hwnnw.

Mae rheoliad 6 yn mewnosod rheoliad newydd 11A. Mae rheoliad newydd 11A yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr sy'n ceisio amrywio eu cofrestriad ddod yn ddarostyngedig i'r gofyniad yn adran 6A(1) o Ddeddf 2016 i ddarparu gwybodaeth a bennir ym mharagraff newydd 7A o Atodlen 1.

Mae rheoliad 7 yn amnewid rheoliad 12 i wneud darpariaeth ynghylch ffurf ceisiadau i amrywio cofrestriad, gan gynnwys y rhai a wneir o dan adran 6C o Ddeddf 2016 a pharagraff 4 o Atodlen 1A iddi.

Mae rheoliadau 8 a 9 yn mewnosod rheoliadau newydd 14 a 15, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cynnwys a ffurf ceisiadau i ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth.

Mae rheoliad 10 yn diwygio Atodlen 1 i'r prif Reoliadau. Mae'n amnewid paragraff 7 i ddiweddaru'r wybodaeth sy'n ofynnol gan ymgeiswyr corfforaethol ac yn mewnosod paragraff newydd 7A, sy'n nodi'r dogfennau cyfansoddiadol a thystiolaethol y mae rhaid iddynt gael eu darparu gan endidau nid-er-elw sy'n gwneud cais i ddarparu gwasanaethau plant o dan gyfyngiad.

Mae rheoliad 11 yn dirymu Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026.

Effaith y diwygiadau a wneir gan reoliadau 1 i 7 a rheoliad 10 yw sicrhau bod ceisiadau i gofrestru, neu i amrywio cofrestriad mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i ddangos cydymffurfedd â'r gofyniad statudol bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu gan endidau nid-er-elw.

Effaith y diwygiadau a wneir gan reoliadau 8 a 9 yw nodi'r gofynion ar gyfer cais i ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar y wefan ar https://www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Mae'r Offeryn Statudol Cymreig hwn wedi ei wneud o ganlyniad i ddiffygion yn O.S.C. 2026/2 ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol Cymreig hwnnw*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  C Y M R U

# 2026 Rhif 38

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 6(1A), 11(4), 14(1A) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**) a pharagraff 4(4) o Atodlen 1A iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026.

(2) Deuant i rym ar 1 Ebrill 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017(**2**).

### Diwygio'r prif Reoliadau

**3.** Mae'r prif Reoliadau wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 4 i 10.

### Diwygio rheoliad 2 (dehongli)

**4.** Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y diffiniad o "ymgeisydd"—

(i) ar ôl "yw" hepgorer "naill ai";

(ii) yn is-baragraff (a), ar ôl "Ddeddf," hepgorer "neu";

(iii) yn is-baragraff (b), ar ôl "Ddeddf", yn lle "." rhodder ", neu";

(**1**) 2016 dccc 2. Mewnosodwyd adrannau 6(1A), 6C, 11(4) a 14(1A) gan adrannau 3(2), 4(2), 8(2) a 15(2) yn y drefn honno, o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (dsc 1).

(**2**) O.S. 2017/1098 (Cy. 278).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(iv) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(c) y person sy'n gwneud cais o dan adran 6C o'r Ddeddf a pharagraff (4) o Atodlen 1A iddi, i gofrestriad y darparwr, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth presennol, fod yn ddarostyngedig i'r gofyniad yn adran 6A(1) o'r Ddeddf."

(b) Yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"mae i "cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau" ("*community interest company limited by guarantee without a share capital*") yr ystyr a roddir yn adran 6B(5) o'r Ddeddf;";

"mae i "cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau" ("*charitable company limited by guarantee without a share capital*") yr ystyr a roddir yn adran 6B(2) o'r Ddeddf;";

"mae i "cymdeithas gofrestredig elusennol" ("*charitable registered society*") yr ystyr a roddir yn adran 6B(4) o'r Ddeddf;";

"ystyr "endid nid-er-elw" ("*not-for-profit entity*") yw endid sy'n bodloni'r diffiniad yn adran 6A(2) o'r Ddeddf;";

"mae i "gwasanaeth plant o dan gyfyngiad" ("*restricted children's service*") yr ystyr a roddir yn adran 2A o'r Ddeddf;";

"mae i "sefydliad elusennol corfforedig" ("*charitable incorporated organisation*") yr ystyr a roddir yn adran 6B(3) o'r Ddeddf;".

**Diwygio Rhan 2 (cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth)**

**5.** Ar ôl rheoliad 3A mewnosoder—

**"3B.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r cais yn gais i gofrestru i ddarparu gwasanaeth sy'n wasanaeth plant o dan gyfyngiad.

(2) Rhaid i'r ymgeisydd, yn ychwanegol at yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 3, ddarparu i Weinidogion Cymru yr wybodaeth a restrir ym mharagraff 7A o Atodlen 1.

(3) Ond caiff Gweinidogion Cymru hepgor unrhyw un neu ragor o'r gofynion i ddarparu gwybodaeth a bennir yn Atodlen 1—

(a) os yw'r ymgeisydd yn endid nid-er-elw,

(b) os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais i gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad sydd i'w ddarparu mewn man y mae darparwr gwasanaeth yn darparu'r gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef ar yr adeg y gwneir y cais ("darparwr presennol"),

(c) os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru mai bwriad yr ymgeisydd yw cymryd drosodd y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth plant o dan gyfyngiad yn y man y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef, o dan gytundeb â'r darparwr presennol, a

(d) os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol hepgor y gofyniad, gan roi sylw i'r wybodaeth a gedwir gan Weinidogion Cymru am y darparwr presennol."

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rhan 3 (cais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth)**

**6.** Ar ôl rheoliad 11 mewnosoder—

**"Yr wybodaeth sydd i gael ei darparu gan ddarparwr gwasanaeth ar gyfer amrywio – adran 6C a pharagraff 4 o Atodlen 1A**

**11A.** Rhaid i gais i amrywio cofrestriad a wneir yn unol ag adran 6C o'r Ddeddf a pharagraff 4 o Atodlen 1A iddi gynnwys yr wybodaeth a restrir ym mharagraffau 7 a 7A o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn."

**7.** Yn lle rheoliad 12 rhodder—

**"Ffurf y cais**

**12.**—(1) Rhaid i gais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth gael ei wneud ar ffurf cais ar-lein a gyrchir ar dudalennau'r wefan a gynhelir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi eu sefydlu at ddibenion hysbysu darparwyr gwasanaethau am y weithdrefn ar gyfer amrywio cofrestriad o dan Ran 1 o'r Ddeddf.

(2) Mae paragraff (1) hefyd yn gymwys i gais i amrywio cofrestriad a wneir yn unol ag adran 6C o'r Ddeddf a pharagraff (4) o Atodlen 1A iddi."

**Cynnwys a ffurf y cais i ganslo cofrestriad**

**8.** Ar ôl rheoliad 13 mewnosoder—

## "RHAN 4

## Cais i ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth

**Yr wybodaeth sydd i gael ei darparu gan ddarparwr gwasanaeth ar gyfer canslo cofrestriad – adran 14(1)**

**14.** Rhaid i gais i ganslo cofrestriad a wneir yn unol ag adran 14(1) o'r Ddeddf gynnwys y canlynol—

(a) y dyddiad arfaethedig y dylai canslo cofrestriad y darparwr gwasanaeth gael effaith arno,

(b) y rheswm dros wneud y cais,

(c) mewn cysylltiad â phob gwasanaeth rheoleiddiedig y mae'r darparwr gwasanaeth yn ei ddarparu, datganiad sy'n nodi sut y mae'r darparwr gwasanaeth yn bwriadu cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan reoliadau a wneir o dan adran 27 o'r Ddeddf hyd nes y bydd y gwasanaeth yn peidio â chael ei ddarparu, a

(d) mewn cysylltiad â phob gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir, manylion unrhyw hysbysiad a roddir gan y darparwr gwasanaeth ynghylch ei fwriad i beidio â darparu'r gwasanaeth i—

(i) defnyddwyr y gwasanaeth;

(ii) yr awdurdod lleol y darperir y gwasanaeth o fewn ei ardal;

(iii) y Bwrdd Iechyd Lleol y darperir y gwasanaeth o fewn ei ardal;

(iv) unrhyw berson arall.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Ffurf y cais i ganslo cofrestriad**

**15.** Rhaid i gais i ganslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth gael ei wneud ar ffurf cais ar-lein a gyrchir ar dudalennau'r wefan a gynhelir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi eu sefydlu at ddibenion hysbysu darparwyr gwasanaethau am y weithdrefn ar gyfer canslo cofrestriad o dan Ran 1 o'r Ddeddf."

**Diwygio Atodlen 1**

**9.** Yn Atodlen 1, yn lle paragraff 7 rhodder—

"**7.**—(1) Pan fo'r sefydliad yn gorff corfforaethol ac eithrio awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol—

(a) enw'r sefydliad;

(b) cyfeiriad swyddfa gofrestredig y sefydliad;

(c) os yw'n wahanol i gyfeiriad y swyddfa gofrestredig neu os nad oes unrhyw swyddfa gofrestredig, cyfeiriad prif swyddfa'r sefydliad;

(d) cyfeiriad post electronig a rhif ffôn y sefydliad;

(e) os yw'r sefydliad yn gwmni, rhif y cwmni;

(f) os yw'r sefydliad yn elusen nad yw'n elusen esempt, rhif yr elusen;

(g) os yw'r sefydliad yn gwmni ac yn is-gwmni i gwmni daliannol—

(i) enw a chyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni daliannol;

(ii) cyfeiriad post electronig a rhif ffôn y cwmni daliannol;

(iii) rhif cwmni'r cwmni daliannol;

(iv) os yw'r cwmni daliannol yn elusen nad yw'n elusen esempt, rhif elusen y cwmni daliannol;

(v) enw a chyfeiriad unrhyw is-gwmni arall i'r cwmni daliannol;

(vi) cyfeiriad post electronig a rhif ffôn unrhyw is-gwmni arall i'r cwmni daliannol;

(vii) rhif cwmni unrhyw is-gwmni arall i'r cwmni daliannol;

(viii) os yw'r is-gwmni yn elusen nad yw'n elusen esempt, rhif elusen yr is-gwmni i'r cwmni daliannol.

(2) Yn y paragraff hwn, mae i "elusen esempt" yr ystyr a roddir i "exempt charity" yn adran 22 o Ddeddf Elusennau 2011(**3**)."

**10.** Ar ôl paragraff 7 mewnosoder—

"**7A.** Pan fo'r sefydliad yn endid nid-er-elw a phan fo'r cais yn ymwneud â gwasanaeth rheoleiddiedig sy'n wasanaeth plant o dan gyfyngiad—

(a) copi o ddogfennau cyfansoddiadol y sefydliad, gan gynnwys erthyglau cymdeithasu a memorandwm cymdeithasu neu ddogfennau cyfatebol;

(b) pan fo'r endid yn gymdeithas gofrestredig elusennol—

(i) tystiolaeth ei bod wedi ei chofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, a

(**3**) 2011 p. 25.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) tystiolaeth bod Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi cydnabod bod y sefydliad yn elusen at ddibenion unrhyw ryddhad neu unrhyw esemptiad o dan ddeddfiad sy'n ymwneud â threthiant."

**Dirymu**

**11.** Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026(**4**) wedi eu dirymu.

*Dawn Bowden*
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
11 Chwefror 2026

(**4**) O.S.C. 2026/2.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*This Welsh Statutory Instrument has been made in consequence of defects in W.S.I. 2026/2 and is being issued free of charge to all known recipients of that Welsh Statutory Instrument*

W E L S H   S T A T U T O R Y   I N S T R U M E N T S

# 2026 No. 38

# SOCIAL CARE, WALES

# The Regulated Services (Registration) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2026

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Regulated Services (Registration) (Wales) Regulations 2017 ("the principal Regulations") make provision about the form and content of applications for registration and applications for variation of registration under Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 ("the 2016 Act").

These Regulations revoke and replace the Regulated Services (Registration) (Wales) (Amendment) Regulations 2026. These Regulations amend the principal Regulations to give effect to changes introduced by section 6A(1) of the 2016 Act, which restricts the provision of certain children's services to local authorities and not-for-profit entities. These services, referred to in these Regulations as "restricted children's services", include children's home services, secure accommodation services and fostering services.

Regulation 4 inserts definitions into regulation 2 of the principal Regulations for "not-for-profit entity", "restricted children's service" and certain types of charitable and community interest organisations. Regulation 4 also amends the definition of "applicant" to include persons who are making an application under section 6C of, and paragraph (4) of Schedule 1A to, the Act, for their registration to be subject to the requirement in section 6A(1) of the Act.

Regulation 5 inserts a new regulation 3B into the principal Regulations, which requires applicants seeking to register to provide a restricted children's service to provide additional information specified in new paragraph 7A of Schedule 1. It also enables the Welsh Ministers to waive certain application requirements if the applicant is a not-for-profit entity taking over a restricted children's service at the same place under an agreement with

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

the existing provider, and if, having regard to information held about the existing provider, the Welsh Ministers consider a waiver appropriate. This enables the Welsh Ministers to adopt a streamlined approach to registration where an existing restricted children's service is being transferred to a not-for-profit entity which meets the requirements of section 6A(1) of the 2016 Act and the Welsh Ministers already hold information about that service.

Regulation 6 inserts new regulation 11A. New regulation 11A requires applicants seeking to vary their registration to become subject to the requirement in section 6A(1) of the 2016 Act to provide information specified in new paragraph 7A of Schedule 1.

Regulation 7 substitutes regulation 12 to make provision about the form of applications to vary registration, including those made under section 6C of, and paragraph 4 of Schedule 1A to, the 2016 Act.

Regulations 8 and 9 insert new regulations 14 and 15, which make provision about the content and form of applications to cancel registration as a service provider.

Regulation 10 amends Schedule 1 to the principal Regulations. It substitutes paragraph 7 to update the information required from corporate applicants and inserts new paragraph 7A, which sets out the constitutional and evidential documents that must be provided by not-for-profit entities applying to provide restricted children's services.

Regulation 11 revokes the Regulated Services (Registration) (Wales) (Amendment) Regulations 2026.

The effect of the amendments made by regulations 1 to 7 and regulation 10 is to ensure that applications to register, or to vary registration in respect of restricted children's services, include sufficient information to demonstrate compliance with the statutory requirement that such services are provided by not-for-profit entities.

The effect of the amendments made by regulations 8 and 9 is to set out the requirements for an application to cancel registration as a service provider.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the website at https://www.gov.wales.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*This Welsh Statutory Instrument has been made in consequence of defects in W.S.I. 2026/2 and is being issued free of charge to all known recipients of that Welsh Statutory Instrument*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 38

# SOCIAL CARE, WALES

# The Regulated Services (Registration) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *11 February 2026* |
| *Coming into force* | *1 April 2026* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 6(1A), 11(4), 14(1A) and 187(1) of, and paragraph 4(4) of Schedule 1A to, the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016(**1**), make the following Regulations.

### Title and coming into force

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Regulated Services (Registration) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2026.

(2) They come into force on 1 April 2026.

### Interpretation

**2.** In these Regulations, “the principal Regulations” means the Regulated Services (Registration) (Wales) Regulations 2017(**2**).

### Amendments to the principal Regulations

**3.** The principal Regulations are amended in accordance with regulations 4 to 10.

### Amendment to regulation 2 (interpretation)

**4.** In regulation 2(1)—

(a) in the definition of “applicant”—

(i) after “means” omit “either”;

(ii) in sub-paragraph (a), after “Act,” omit “or”;

(iii) in sub-paragraph (b), after “Act”, for “;” substitute “, or”;

(**1**) 2016 anaw 2. Sections 6(1A), 6C, 11(4) and 14(1A) were inserted by sections 3(2), 4(2), 8(2) and 15(2) respectively, of the Health and Social Care (Wales) Act 2025 (asc 1).
(**2**) S.I. 2017/1098 (W. 278).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(iv) after sub-paragraph (b) insert—

"(c) the person making an application under section 6C of, and paragraph (4) of Schedule 1A to, the Act, for the provider's registration, in respect of the existing service, to be subject to the requirement in section 6A(1) of the Act;"

(b) At the appropriate places insert—

""charitable company limited by guarantee without a share capital" ("*cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau*") has the meaning given in section 6B(2) of the Act;";

""charitable incorporated organisation" ("*sefydliad elusennol corfforedig*") has the meaning given in section 6B(3) of the Act;";

""charitable registered society" ("*cymdeithas gofrestredig elusennol*") has the meaning given in section 6B(4) of the Act;";

""community interest company limited by guarantee without a share capital" ("*cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau*") has the meaning given in section 6B(5) of the Act;";

""not-for-profit entity" ("*endid nid-er-elw*") means an entity which meets the definition in section 6A(2) of the Act;",

""restricted children's service" ("*gwasanaeth plant o dan gyfyngiad*") has the meaning given in section 2A of the Act;".

**Amendment to Part 2 (application for registration as a service provider)**

**5.** After regulation 3A insert—

**"3B.**—(1) This regulation applies where the application is an application to register to provide a service which is a restricted children's service.

(2) The applicant must, in addition to the information specified in regulation 3, provide the Welsh Ministers with the information listed in paragraph 7A of Schedule 1.

(3) But the Welsh Ministers may waive any of the requirements to provide information specified in Schedule 1 if—

(a) the applicant is a not-for-profit entity,

(b) the applicant is applying to register in respect of a restricted children's service to be provided at, from, or in relation to a place where it is being provided by a service provider at the time the application is made ("an existing provider"),

(c) it appears to the Welsh Ministers that the intention of the applicant is to take over the provision of the restricted children's service at, from or in relation to the place where it is being provided, under an agreement with the existing provider, and

(d) the Welsh Ministers consider that it is appropriate to waive the requirement, having regard to information which the Welsh Ministers hold about the existing provider."

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Amendment to Part 3 (application for variation of registration as a service provider)**

**6.** After regulation 11 insert—

**"Information to be provided by a service provider for variation – section 6C and paragraph 4 of Schedule 1A**

**11A.** An application for variation of registration made pursuant to section 6C of, and paragraph 4 of Schedule 1A to, the Act must contain the information listed in paragraphs 7 and 7A of Schedule 1 to these Regulations."

**7.** For regulation 12 substitute—

**"Form of application**

**12.**—(1) An application for variation of registration as a service provider must be made in the form of an on-line application which is accessed from the pages of the website maintained by the Welsh Government which have been established for the purposes of informing service providers about the procedure for variation of registration under Part 1 of the Act.

(2) Paragraph (1) also applies to an application for variation of registration made pursuant to section 6C of, and paragraph (4) of Schedule 1A to, the Act."

**Content and form of application to cancel registration**

**8.** After regulation 13 insert—

## "PART 4

## Application for cancellation of registration as a service provider

**Information to be provided by a service provider for cancellation of registration - section 14(1)**

**14.** An application for cancellation of registration made pursuant to section 14(1) of the Act must contain the following—

(a) the proposed date on which the cancellation of the service provider's registration should take effect,

(b) the reason for making the application,

(c) in respect of each regulated service that the service provider provides, a statement setting out how the service provider intends to comply with the requirements imposed by regulations made under section 27 of the Act until the service ceases to be provided, and

(d) in respect of each regulated service provided, detail of any notice given by the service provider about its intention to cease providing the service to—

(i) service users;

(ii) the local authority within whose area the service is being provided;

(iii) the Local Health Board within whose area the service is being provided;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(iv) any other person.

**Form of application for cancellation of registration**

**15.** An application for cancellation of registration as a service provider must be made in the form of an on-line application which is accessed from the pages of the website maintained by the Welsh Government which have been established for the purposes of informing service providers about the procedure for cancellation of registration under Part 1 of the Act."

**Amendments to Schedule 1**

**9.** In Schedule 1, for paragraph 7 substitute—

**"7.**—(1) Where the organisation is a body corporate other than a local authority or Local Health Board—

(a) the name of the organisation;

(b) the address of the registered office of the organisation;

(c) if different from the address of the registered office or if there is no registered office, the address of the principal office of the organisation;

(d) the electronic mail address and telephone number of the organisation;

(e) if the organisation is a company, the company number;

(f) if the organisation is a charity that is not an exempt charity, the charity number;

(g) if the organisation is a company and is a subsidiary of a holding company—

(i) the name and address of the registered office of the holding company;

(ii) the electronic mail address and telephone number of the holding company;

(iii) the company number of the holding company;

(iv) if the holding company is a charity that is not an exempt charity, the charity number of the holding company;

(v) the name and address of any other subsidiary of the holding company;

(vi) the electronic mail address and telephone number of any other subsidiary of the holding company;

(vii) the company number of any other subsidiary of the holding company;

(viii) if the subsidiary is a charity that is not an exempt charity, the charity number of the subsidiary of the holding company.

(2) In this paragraph, "exempt charity" has the meaning given in section 22 of the Charities Act 2011(**3**)."

**10.** After paragraph 7 insert—

**"7A.** Where the organisation is a not-for-profit entity and the application relates to a regulated service that is a restricted children's service—

(a) a copy of the organisation's constitutional documents, including articles of association and memorandum of association or equivalent documents;

(**3**) 2011 c. 25.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) where the entity is a charitable registered society—

(i) evidence of registration with the Financial Conduct Authority, and

(ii) evidence that the Commissioners for His Majesty's Revenue and Customs have recognised that the organisation is a charity for the purposes of any relief or exemption under an enactment relating to taxation."

**Revocation**

**11.** The Regulated Services (Registration) (Wales) (Amendment) Regulations 2026(**4**) are revoked.

*Dawn Bowden*
Minister for Children and Social Care, under the authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
11 February 2026

(**4**) W.S.I. 2026/2.